Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

Estyn
Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Greenfields Nursery

**198 Heol Tregwilym**
**Tŷ-du**
**Casnewydd**
**NP10 9EL**

**Dyddiad yr arolygiad: Tachwedd 2023**

**gan**

**Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)**

**ac**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn â Greenfields Nursery

| | |
|---|---|
| Enw'r lleoliad | Greenfields Nursery |
| Categori'r gofal a ddarperir | Gofal dydd llawn |
| Person(au) cofrestredig | Jason Roberts-Jones a Karen Roberts-Jones |
| Unigolyn cyfrifol (os yw'n berthnasol) | |
| Person â gofal | Tegan Farina-Bray, Libby Gardner, Jason Roberts-Jones, Karen Roberts-Jones |
| Nifer y lleoedd | 53 |
| Ystod oedran y plant | 0 – 4 oed |
| Nifer y plant 3 a 4 mlwydd oed | 28 |
| Nifer y plant sy'n cael eu hariannu ar gyfer addysg gynnar | 20 |
| Diwrnodau / amseroedd agor | Dydd Llun i ddydd Gwener, 7:30 – 5:30pm |
| Gwasanaeth Dechrau'n Deg | Nac oes |
| Iaith y lleoliad | Saesneg |
| A yw'r lleoliad yn gweithredu'r Cynnig Gofal Plant? | Ydy |
| Cynnig Rhagweithiol y Gymraeg | Nid yw'r gwasanaeth hwn yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' y Gymraeg, ac nid yw'n dangos ymdrech sylweddol i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a'i diwylliant. |
| Dyddiad arolygiad blaenorol AGC | Mehefin 2021 |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn | Hwn yw'r arolygiad cyntaf |
| Dyddiadau'r ymweliad(au) arolygu hwn/hyn | 21/11/2023 |
| Mae ychydig iawn o blant yn siarad Saesneg fel iaith ychwanegol. | |

# Crynodeb

| Thema | Barn |
| --- | --- |
| **Lles** | **Da** |
| **Dysgu**<br>**(mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | **Da** |
| **Gofal a datblygiad** | **Da** |
| **Addysgu ac asesu**<br>**(mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | **Da** |
| **Yr amgylchedd** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Da** |

## Diffyg cydymffurfio

Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio yn ystod yr arolygiad hwn.

## Argymhellion

A1 Gwella ansawdd arsylwadau ymarferwyr i adlewyrchu dysgu a chwarae’r plant a nodi’r camau nesaf yn eu datblygiad

A2 Datblygu rôl ymarferwyr i gefnogi a herio dysgu a chwarae’r plant

## Beth sy’n digwydd nesaf

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy’n dangos sut bydd yn mynd i’r afael â’r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

**Lles: Da**

Mae plant yn derbyn gofal caredig ac ystyriol sy’n cefnogi eu lles yn effeithiol. Maent yn gwneud cynnydd da yn datblygu eu medrau personol a chymdeithasol ac mae llawer o blant yn gyfathrebwyr hyderus. Er enghraifft, maent yn hapus i sgwrsio gydag ymwelwyr ac yn awyddus i siarad am eu dysgu a’u chwarae. Mae bron pob un o’r plant yn symud yn hyderus rhwng ardaloedd a gweithgareddau ac yn dewis teganau ac adnoddau y maent yn eu mwynhau. Er enghraifft, mae plant iau yn cropian tuag at flychau sy’n cynnwys teganau amlsynhwyraidd, ac yn cael mynediad atynt. Mae llawer o blant yn cyfathrebu ac yn mynegi eu hunain a’u hanghenion yn hyderus gan wybod y bydd ymarferwyr yn ymateb iddynt ac yn gwrando arnynt yn barchus, er enghraifft pan fydd ychydig o blant yn penderfynu peidio ag ymuno â gweithgaredd gwaith coed gan ei fod yn rhy swnllyd.

Mae bron pob un o’r plant yn mynd i mewn i’r lleoliad yn hapus ac yn cael eu cyfarch yn wresog gan ymarferwyr. Maent yn ymdopi’n dda â chael eu gwahanu oddi wrth eu rhieni ac yn ymgynefino’n gyflym â’r arferion cyfarwydd gan fod trosglwyddiadau yn effeithiol. Mae bron pob un o’r plant yn egnïol ac yn mynegi brwdfrydedd a mwynhad ar gyfer eu dysgu a’u chwarae. Er enghraifft, mae plant iau yn chwerthin ac yn dynwared y symudiadau yn ystod sesiwn ganu. Mae’r rhan fwyaf o blant yn gwybod gyda phwy i siarad os ydynt yn anhapus, ac yn troi at ymarferwyr yn hyderus am gysur a chymorth.

Mae bron pob un o’r plant yn rhyngweithio ag ymarferwyr ac â’i gilydd yn llwyddiannus. Mae plant hŷn yn dechrau deall pwysigrwydd cymryd eu tro gyda’u

ffrindiau. Mae llawer o blant yn barod i ddilyn cyfarwyddiadau gan ymarferwyr, er enghraifft pan ofynnir iddynt olchi eu dwylo cyn amseroedd prydau bwyd a helpu i dacluso adnoddau.

Mae bron pob un o'r plant yn cael hwyl, yn egnïol ac wedi'u cymell yn eu chwarae a'u dysgu. Maent yn mwynhau ystod fuddiol o gyfleoedd diddorol dan do ac yn yr awyr agored. Mae plant yn archwilio eu hamgylchedd a'r gweithgareddau a'r adnoddau a gynigir iddynt yn hyderus. Maent yn ennyn diddordeb ymarferwyr yn eu chwarae a'u dysgu tra bod rhai eraill yn hapus i ymgolli yn eu chwarae dychmygus eu hunain. Mae'r rhan fwyaf o blant yn mwynhau chwarae rhydd yn ogystal â gweithgareddau wedi'u harwain gan oedolion. Mae bron pob un o'r plant yn cynnal ffocws ac yn dal ati i ganolbwyntio am gyfnod amser priodol. Codir hunan-barch a hyder plant trwy ddefnydd cyson o ganmoliaeth gadarnhaol wrth ryngweithio ag ymarferwyr.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn datblygu eu medrau annibyniaeth yn briodol. Maent yn datblygu annibyniaeth â'u medrau hunanofal, er enghraifft golchi dwylo cyn amseroedd prydau bwyd, ac yn defnyddio'r toiledau gyda lefelau amrywiol o gymorth. Rhoddir digonedd o gyfleoedd i blant ddatblygu medrau annibyniaeth yn ystod amseroedd prydau bwyd. Mae llawer ohonynt yn dewis y cyllyll a'r ffyrc priodol i'w defnyddio ac yn gweini eu hunain. Pan fyddant wedi gorffen, maent yn rhoi'r bwyd sydd ganddynt dros ben yn y bin ailgylchu bwyd. Mae bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn dda yn ystod amseroedd prydau bwyd ac yn sgwrsio'n gymdeithasol â'i gilydd a staff am eu hoff fwydydd.

**Dysgu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir): Da**

Mae llawer o blant yn gwneud cynnydd da o'u mannau cychwyn unigol ym mhob maes dysgu. Maent yn dod yn gynyddol annibynnol tra'n dewis beth i'w archwilio a diwallu eu hanghenion personol eu hunain. Er enghraifft, mae llawer o blant yn gwybod bod rhaid iddynt gasglu a gwisgo'u côt a'u bŵts cyn mynd y tu allan. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn gwrando'n astud ac yn dilyn cyfarwyddiadau sy'n cael eu rhoi gan ymarferwyr.

Mae llawer o blant yn dangos diddordeb mewn llyfrau, gan eu dewis yn annibynnol o'r ardal ddarllen. Maent yn rhannu profiadau darllen gyda'i gilydd ac yn gwahodd eu ffrindiau i wrando. Mae llawer o blant yn trafod y lluniau'n hyderus ac yn mwynhau cynnwys y llyfrau. Mae bron pob un ohonynt yn hapus i chwarae ochr yn ochr â'i gilydd, a lleiafrif ohonynt yn dechrau cyd-chwarae. Wrth wneud hynny, mae'r plant yn sgwrsio ac yn defnyddio ystod o eirfa briodol, er enghraifft wrth drafod y dull cludiant y byddant yn ei ddefnyddio wrth iddynt chwarae rôl. Mae llawer o blant yn datblygu eu medrau creu marciau yn briodol ac yn mwynhau defnyddio papur a phensiliau yn yr ardal chwarae rôl. Gall ychydig o blant ddangos eu dealltwriaeth o ddiben ysgrifennu.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn cymryd rhan â brwdfrydedd wrth ganu caneuon Cymraeg. Maent yn dangos mwynhad a phleser wrth archwilio'r Gymraeg, ac mae llawer ohonynt yn ymateb yn briodol i gyfarwyddiadau fel 'golcha dy ddwylo' neu 'eisteddwch'. Maent yn dangos chwilfrydedd am y Gymraeg ac yn dechrau defnyddio

hyn yn eu dysgu a'u chwarae. Er enghraifft, mae plant yn gofyn i'r ymarferwr gyfieithu delweddau'r Nadolig.

Mae llawer o blant yn datblygu eu medrau rhifedd yn dda ac yn defnyddio iaith fathemategol syml mewn cyd-destunau priodol, er enghraifft wrth gymharu maint eu peli toes chwarae. Mae'r rhan fwyaf o blant yn archwilio siâp ac ymwybyddiaeth ofodol wrth adeiladu yn yr ardal flociau. Gall ychydig ohonynt ddangos eu dealltwriaeth o batrwm a chymesuredd hefyd trwy eu lluniadau creadigol. Mae llawer o blant yn cyfrif i ddeg o'u cof a byddant yn gwneud hynny wrth chwarae'n ddigymell. Yn ystod amser byrbryd, mae llawer o blant yn cyfrif y darnau ffrwythau cywir i bump yn gywir ar goedd.

Mae bron pob un o'r plant yn datblygu medrau datrys problemau yn eithriadol o dda, er enghraifft wrth gymysgu cynhwysion i greu toes chwarae o'r cysondeb cywir. Maent yn dangos dyfalbarhad trwy ychwanegu mwy o flawd neu ddŵr yn ôl yr angen. Mae llawer o blant yn adeiladu strwythurau cynyddol gymhleth yn yr ardal chwarae blociau, gan ddangos eu gallu i ddatrys problemau a chydweithio. Maent yn cyfleu eu prosesau meddwl yn dda â'i gilydd ac yn trafod y strwythurau gan ddefnyddio termau mathemategol priodol, er enghraifft wrth drafod pa floc hyd sy'n gweddu orau i orchuddio'r fynedfa i'w hadeilad.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn datblygu eu medrau corfforol yn dda. Maent yn trafod gofod ac yn datblygu eu cydsymud yn effeithiol wrth falansio ar y planciau pren. Mae'r rhan fwyaf o blant yn dyfalbarhau ac yn datblygu rheolaeth dda wrth iddynt ddefnyddio cyllell i dorri eu grawnwin yn ystod amser byrbryd. Mae'r rhan fwyaf ohonynt wedi meistroli tasg curo hoelion bach â morthwyl i mewn i flociau pren, a gallant ddefnyddio'r medrau hyn i adeiladu'n greadigol, er enghraifft wrth atodi nifer o ddarnau o bren i greu anghenfil robot a rhoi hoelion ar olwynion i greu car.

Mae bron pob un o'r plant yn dechrau datblygu medrau creadigol defnyddiol. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn chwarae'n ddychmygus yn y gegin fwd. Maent yn ymgymryd â rolau ac yn creu amrywiaeth o ryseitiau a chymysgeddau gan ddefnyddio adnoddau naturiol fel dail, perlysiau, petalau a mwd. Mae llawer o blant yn mynegi eu hunain yn greadigol trwy gerddoriaeth trwy chwarae'r offerynnau â brwdfrydedd a chreu amrywiaeth o symudiadau wrth ymateb i'r gerddoriaeth.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn gyfarwydd â defnyddio adnoddau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) wrth chwarae ac yn eu gweithgareddau bob dydd. Mae llawer o blant yn addasu eu lleferydd yn hyderus i wella cywirdeb wrth ofyn i'r seinydd clyfar chwarae eu hoff ganeuon. Maent yn archwilio'r blwch golau yn annibynnol ac yn tynnu lluniau o'r pethau cyffrous y maent wedi'u gweld yn yr amgylchedd.

## Gofal a datblygiad: Da

Mae ymarferwyr yn meddu ar ddealltwriaeth gadarn o sut i gadw plant yn ddiogel ac yn iach. Er enghraifft, maent yn cynorthwyo ac annog plant i dreulio amser yn yr awyr iach trwy sesiynau chwarae yn yr awyr agored bob dydd, ac yn darparu dewisiadau byrbryd iach. Maent yn gweithredu polisïau a gweithdrefnau yn gyson ac yn hyderus yn eu rolau a'u cyfrifoldebau. Er enghraifft, maent yn dilyn y polisi damweiniau yn

fedrus ac yn diwallu anghenion plant ag alergeddau yn ddiogel. Mae ymarferwyr yn defnyddio arferion hylendid da yn effeithiol. Maent yn golchi eu dwylo'n rheolaidd, yn gwisgo dillad amddiffynnol ac yn delio â gofal personol, fel newid cewynnau, yn briodol.

Mae ymarferwyr yn deall eu cyfrifoldeb i ddiogelu plant rhag niwed, gan gynnwys sut i ymateb i unrhyw bryderon ynghylch amddiffyn plant. Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn peri pryder. Mae ymarferwyr yn ymwybodol o'r weithdrefn i'w dilyn mewn argyfwng wrth iddynt ymarfer driliau tân rheolaidd gyda'r plant.

Mae ymarferwyr yn garedig, yn ofalgar ac yn anogol. Maent yn cyfathrebu â phlant mewn modd gwresog a chyfeillgar, gan greu awyrgylch tawel a hamddenol. Mae llawer o ymarferwyr yn fodelau rôl cadarnhaol i blant ac yn rhyngweithio'n dda â nhw yn ystod eu gweithgareddau a'u harferion chwarae. Er enghraifft, mae ymarferwyr yn eistedd gyda phlant pan fyddant yn edrych ar lyfrau gyda lluniau o aelodau'r teulu ac yn trafod y lluniau gyda'r plant. Mae ymarferwyr yn rhannu gwybodaeth am ddatblygiad plant â balchder, gan wybod eu bod wedi chwarae rhan fawr yng nghynnydd y plentyn. Mae ymarferwyr yn ymwybodol o bwysigrwydd defnyddio strategaethau ymddygiad cadarnhaol ac yn cynorthwyo plant yn dda yn unol â'u hanghenion unigol. Maent yn siarad â phlant yn sensitif ac yn eu cynorthwyo wrth iddynt rannu a chymryd eu tro gyda'u ffrindiau. Mae ymarferwyr yn defnyddio llawer o ganmoliaeth ac anogaeth gyda'r plant, sy'n codi hunan-barch a hyder. Er enghraifft, caiff plant eu canmol yn frwdfrydig am dacluso'r holl deganau cyn amser byrbryd. Mae gan ymarferwyr berthnasoedd cadarnhaol â rhieni a gofalwyr ac maent yn sicrhau bod gwybodaeth am ddiwrnod eu plentyn ar gael yn rhwydd ar yr ap electronig.

Mae gan y lleoliad weithdrefnau effeithiol ar waith i gynorthwyo plant ag anghenion dysgu ychwanegol, ac mae ymarferwyr yn hysbysu rhieni a gofalwyr yn gyson am gynnydd eu plentyn. Maent yn olrhain arferion ac ymgysylltiad plant yn briodol ac mae ganddynt ddealltwriaeth dda o'u cyfnod datblygu. Mae hyn yn eu helpu i gynllunio ystod o gyfleoedd dysgu a chwarae buddiol.

**Addysgu ac asesu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir): Da**

Mae ymarferwyr yn sefydlu perthnasoedd cadarnhaol â'r plant. Maent wedi creu amgylchedd dysgu difyr sydd wedi'i gyfarparu'n addas i ddatblygu medrau plant. Maent yn annog y plant i fentro'n ofalus ac archwilio'u hamgylchedd yn hyderus. Er enghraifft, mae'r plant yn defnyddio llifiau, sgriwdreifars a morthwylion yn yr ardal gwaith coed, ac yn creu lluniadau mawr gyda'r planciau a'r blociau. Mae hyn yn galluogi plant i ddatblygu eu medrau corfforol ynghyd â'u medrau cyfathrebu a rhifedd yn briodol.

Mae ymarferwyr yn datblygu eu gwybodaeth am y Cwricwlwm i Gymru yn briodol ac yn ymgysylltu'n rheolaidd â chyfleoedd hyfforddi. Mae hyn yn dechrau cael effaith gadarnhaol ar brofiadau dysgu a chwarae'r plant. Er enghraifft, mae plant yn cael mynediad parhaus at yr amgylchedd awyr agored ac yn defnyddio ystod o adnoddau

dilys a phwrpasol. Mae ymarferwyr yn caniatáu ar gyfer cyfnodau hir o chwarae di-dor lle gall y plant ymgysylltu â dysgu buddiol yn seiliedig ar chwarae. Maent yn dangos dealltwriaeth o rôl yr oedolyn yn briodol trwy fodelu ymagwedd lawen at ddysgu, gan fod yn gyson yn eu gofal a modelu tosturi a charedigrwydd. Mae llawer o ymarferwyr yn fodelau rôl iaith da ac yn defnyddio cwestiynau addas i herio a chefnogi dysgu a chwarae'r plant yn briodol. Fodd bynnag, nid ydynt bob amser yn ymyrryd yn chwarae'r plant mewn modd digon amserol i ymestyn eu dysgu ymhellach. Yn ychwanegol, nid yw ymarferwyr bob amser yn defnyddio arsylwadau o ddatblygiad plant yn ddigon da i lywio'r camau nesaf yn eu dysgu a'u chwarae, ac adeiladu ar eu gwybodaeth, eu dealltwriaeth a'u medrau presennol.

Mae pob un o'r ymarferwyr yn defnyddio Cymraeg achlysurol yn dda er gwaethaf y lefel amrywiol o gymwyseddau iaith. Maent yn cynorthwyo'i gilydd â datblygu eu Cymraeg er budd y plant. Er enghraifft, mae ymarferwyr yn cyflwyno gair Cymraeg yr wythnos i ddatblygu geirfa plant. Mae ymarferwyr hefyd yn darparu ychydig o gyfleoedd buddiol i'r plant archwilio'r iaith trwy gynnwys llyfrau Cymraeg yn y gornel ddarllen.

Mae ymarferwyr yn darparu ystod addas o adnoddau i ddatblygu medrau llythrennedd, rhifedd, creadigol a chorfforol plant. Er enghraifft, gall plant ddefnyddio offer creu marciau addas yn y gornel chwarae rôl ac maent yn mwynhau archwilio gwrthrychau a deunyddiau penagored i ddatblygu eu creadigrwydd. Maent hefyd yn darparu digon o gyfleoedd i ddatblygu medrau TGCh plant, er enghraifft trwy roi cyfle i blant ddefnyddio cyfrifiaduron llechen a seinydd cyflar i gefnogi eu medrau cyfathrebu.

Mae ymarferwyr yn darparu cyfleoedd buddiol i blant ddysgu am ddiwylliannau a chredoau eraill. Maent yn ymwybodol iawn o ystod gwahanol gefndiroedd diwylliannol y plant ac yn dangos parch am eu diwylliant ac iaith eu haelwyd. Er enghraifft, maent wedi creu arddangosfa i ddathlu ieithoedd y mae plant yn eu siarad ar eu haelwyd ac yn dathlu gwyliau crefyddol pwysig fel Diwali.

Mae ymarferwyr yn darparu diweddariadau priodol i rieni a gofalwyr ar ddiwrnod eu plentyn yn y lleoliad. Fodd bynnag, nid yw'r wybodaeth hon yn canolbwyntio'n ddigon da ar eu hysbysu am gynnydd eu plentyn.

### Yr amgylchedd: Da

Mae'r adeiladau yn gynnes, yn ddiogel ac yn cael eu cynnal yn dda iawn. Mae'r fynedfa'n ddiogel ac mae drysau wedi'u cloi yn sicrhau bod mynediad awdurdodedig yn unig yn cael ei ganiatáu gan ymarferwyr. Mae asesiadau risg cynhwysfawr ar waith, hefyd. Mae ymarferwyr yn cadw plant yn ddiogel trwy gwblhau gwiriadau diogelwch dyddiol o'r amgylchedd i nodi a dileu risgiau i'w diogelwch, lle bo modd. Mae ymarferwyr yn cadw'r lleoliad yn lân ac yn defnyddio arferion priodol i reoli heintiau yn llwyddiannus er mwyn lleihau unrhyw risg i iechyd a diogelwch plant.

Mae'r amgylchedd dan do yn groesawgar ac yn addas ar gyfer plant. Mae arweinwyr yn darparu ystafelloedd sy'n ardaloedd golau, eang a chyffrous i blant archwilio a datblygu eu synhwyrau a'u diddordebau. Mae ymarferwyr yn rhoi cyfle i blant symud

yn rhydd mewn gofod sy’n ddychmygus, yn atyniadol ac wedi’i ddylunio i ennyn eu diddordeb nhw mewn chwarae a dysgu. Maent yn sicrhau bod plant yn elwa ar ystafelloedd sydd wedi’u rhannu’n orsafoedd ag adnoddau da lle mae plant yn archwilio ac yn ymgysylltu â nhw yn frwdfrydig. Er enghraifft, mae’r ddarpariaeth yn cynnwys ardaloedd creadigol ac ymchwiliol hygyrch, cornel gartref ysgogol, a gorsaf toes chwarae i wneud eu toes eu hunain, a gorsaf ail-lenwi paent. Gall plant iau archwilio eu hardal dan do ddynodedig yn ddiogel. Mae ymarferwyr yn arddangos gwaith plant yn ogystal â ffotograffau o aelodau o’u teulu agos, sy’n cryfhau eu hymdeimlad o berthyn.

Mae arweinwyr ac ymarferwyr yn sicrhau bod y gofod chwarae yn yr awyr agored yn cael ei ddefnyddio mor aml ag y bo modd ac yn estyniad ar yr amgylchedd dysgu. Gall plant symud yn rhydd rhwng yr amgylchedd dan do ac awyr agored. Mae adnoddau awyr agored ac offer chwarae o ansawdd da yn herio ac yn symbylu chwilfrydedd a diddordeb plant. Er enghraifft, mae arweinwyr ac ymarferwyr yn darparu offer ar gyfer plant, y gallant eu casglu ynghyd yn gyrsiau rhwystrau, a’u defnyddio ar gyfer chwarae dychmygus. Maent hefyd yn darparu cyfleoedd i blant ddefnyddio ardaloedd ar gyfer cyfnodau tawel. Er enghraifft, mae plant yn mynd â llyfrau darllen i guddfan ac yn treulio amser ar eu pen eu hunain wedi ymgolli yn eu llyfrau. Mae plant yn mynd i’r ardal gwaith coed yn hyderus ac yn dangos ymwybyddiaeth dda trwy wisgo sbectol diogelwch cyn iddynt ddechrau defnyddio morthwyl a hoelion.

Mae arweinwyr yn darparu ystod eang o adnoddau chwarae a dysgu o ansawdd da, sy’n ddatblygiadol briodol i sicrhau bod plant yn cael amrywiaeth a dewis da. Maent yn darparu adnoddau ysgogol ac arloesol ar gyfer pob oedran a chyfnod datblygu. Mae gan y lleoliad ddodrefn ac adnoddau addas i gefnogi annibyniaeth plant, er enghraifft byrddau a chadeiriau maint plant, a mannau storio teganau ar lefel isel, sy’n addas ar gyfer oedrannau pob un o’r plant o fewn y feithrinfa. Mae nifer o doiledau plant a chyfleusterau newid cewynnau ar gael, sy’n hollol lân ac yn cael eu cynnal a chadw’n dda. Mae sebon a chyfleusterau sychu dwylo ar gael yn hawdd i gefnogi annibyniaeth plant wrth fynd i’r afael â’u gofal personol.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth: Da**

Mae arweinwyr yn ymgymryd â rôl weithredol yn y lleoliad ac yn hyrwyddo ethos cadarnhaol a hapus, lle mae’r plant yn ganolog i’r penderfyniadau a wnânt. O ganlyniad, mae plant yn profi amgylchedd gwresog, gofalgar ac anogol. Lles ymarferwyr a phlant sydd wrth wraidd holl waith y lleoliad, sy’n helpu creu ethos cadarnhaol lle mae plant ac ymarferwyr yn teimlo’u bod yn cael eu gwerthfawrogi.

Mae gan arweinwyr broses addas ar gyfer gwerthuso gwaith y lleoliad ac maent yn nodi cryfderau a meysydd i’w gwella yn briodol. Er enghraifft, mae’r lleoliad wedi nodi’n gywir fod angen gwella partneriaethau ymhellach. Maent yn mynd ati i ennyn diddordeb rhanddeiliaid yn y broses i gasglu eu safbwyntiau a’u barnau. Mae arweinwyr yn fodlon buddsoddi mewn adnoddau o ansawdd da i ddarparu amgylchedd ysgogol, heriol a chyffrous ar gyfer y plant, er enghraifft y fframiau dringo, y gwelyau plannu blodau a’r sied offer.

Mae arweinwyr yn rhagweithiol o ran gwella iechyd a diogelwch yn y lleoliad ac yn cynnal archwiliadau misol o adroddiadau am ddamweiniau. Mae’r system arloesol hon yn lliniaru risg yn llwyddiannus ac yn atal digwyddiadau cyffredin rhag digwydd eto, gan sicrhau diogelwch plant a staff yn y lleoliad. Mae asesiadau risg yn weladwy ar draws y lleoliad, ac mae staff yn cyfeirio atynt yn rheolaidd.

Mae arweinwyr yn dilyn proses recriwtio drylwyr ac yn sicrhau bod yr holl wiriadau angenrheidiol wedi cael eu cwblhau. Maent yn sicrhau bod ymarferwyr yn meddu ar gymwysterau perthnasol ac yn eu cynorthwyo i gyflawni eu rolau yn fedrus. Mae arweinwyr yn dilyn trefniadau effeithiol i oruchwylio a monitro ymarferwyr yn rheolaidd. Maent yn sicrhau bod ymarferwyr yn cael cyfleoedd i fynychu hyfforddiant perthnasol a rheolaidd, ac wedi ymgorffori diwylliant cryf o ddatblygiad proffesiynol parhaus. Er enghraifft, maent wedi rhoi mynediad i ymarferwyr at hyfforddiant datblygiad proffesiynol ar-lein, sydd ar gael yn hawdd. Mae arweinwyr yn gwerthfawrogi effaith gadarnhaol rhwydweithio a rhannu arfer dda gydag arweinwyr ac ymarferwyr mewn lleoliadau eraill.

Gwneir defnydd da o gyllid grant i gefnogi a gwella dysgu a lles plant. Mae hyn yn cynnwys prynu ystod dda o offer chwarae i ddatblygu creadigrwydd a dychymyg plant, fel îsl mawr ar gyfer yr ardal greadigol, ac adnoddau go iawn, dilys a darnau rhydd ar gyfer yr ardal chwarae rôl. Mae hefyd yn cynnwys cyllid ar gyfer hyfforddiant staff ac ymweliadau gan ddarparwyr allanol.

Mae arweinwyr yn meithrin deialog agored gyda rhieni ac yn eu hysbysu’n gyson am les y plant trwy gydol y dydd. Mae sesiynau rheolaidd i ymgysylltu â theuluoedd yn galluogi teuluoedd i gael eu cynnwys ym mywyd y feithrinfa, er enghraifft trwy wahodd teuluoedd i’r lleoliad i gymryd rhan mewn gweithgareddau fel gwaith coed a garddio gyda’u plant.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan y lleoliad ac oddi ar wefan AGC ac Estyn (http://arolygiaethgofal.cymru) (www.estyn.llyw.cymru)

Mae AGC ac Estyn yn gwerthuso effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig y mae angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Cryfderau yn gorbwyso gwendidau ond mae angen gwelliannau |
| **Gwael** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau ac mae angen gwelliannau sylweddol |

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2024: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 26/01/2024

| Crynodeb o'r achos o ddiffyg cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb ei Chyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i ddiffyg cydymffurfiaeth â'r rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a / neu risg i'w llesiant eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Mae'n rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i fynd i'r afael â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2024: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 26/01/2024

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| **Maes i'w Wella / Meysydd I'w Gwella** | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad | Dd/G |

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2024:  Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.  Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi:  26/01/2024

| Graddau | Ystyr y graddau |
|---|---|
| **Rhagorol** | Gwasanaethau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Gwasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hybu eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Gwasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hyrwyddo llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Gwasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau ac mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Lle bydd gwasanaethau yn wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn cyflwyno hysbysiad diffyg cydymffurfio. |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall p'un a yw ein hadroddiadau yn darparu gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, cliciwch ar y ddolen ganlynol i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiad arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol am wasanaeth, ewch i'n Tudalen arolygon adborth

**Dyddiad Cyhoeddi** 26 Ionawr 2024

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2024: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 26/01/2024